**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 27 MEHEFIN 2017 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Miss Deb Jones (Swyddog Cymorth Busnes); Mrs Caroline Redmond (Cynorthwyydd Swyddfa)

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 11:15

**Ymddiheuriadau:** Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon)

**1. Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

**2. Briff y Cadeirydd**

2.1. Croesawyd Deb Jones gan y Cadeirydd, sef y Swyddog Cymorth Busnes newydd i'r Comisiwn.

2.2. Briffiwyd y Comisiwn gan y Cadeirydd ynglŷn â'r cyfarfod diweddar rhyngddo ef a'r Prif Weithredwr â swyddogion a oedd yn cynnal arolwg Llywodraeth Cymru o'r trefniadau gweithredol ar gyfer noddi Cyrff Cyhoeddus i drafod nifer o faterion.

2.3. Soniodd y Cadeirydd am fwriad Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar i gynnal arolwg o swyddogaeth a chyfansoddiad Cynghorau Cymuned Cymru.

2.4. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn mynychu digwyddiad 'Y Gwasanaeth Sifil yn Fyw / Civil Service Live' yng Nghaerdydd yr wythnos hon.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 23 Mai 2017**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2017 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 12 Mehefin 2017 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- **(Mater 2)** Staffio – Mae'r Swyddog Cymorth Busnes wedi dechrau yn ei swydd, ac roedd swydd wag y Swyddog Arolygon yn dal i gael ei hysbysebu.
- **(Mater 3)** Porth Ymgynghori – Mae trafodaethau yn dal i fynd rhagddynt gyda'r datblygwr.
- **(Mater 6)** Strategaeth TG – Mae'r Achos Busnes wedi'i anfon at Lywodraeth Cymru. Rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr friff pellach ar nifer o faterion TGCh.
- **(Mater 7)** Cyfarfod Rhwng-Comisiynau – Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y trefniadau.

## 5. Adroddiad ar y Gymraeg 2016/17

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 20 Mehefin 2017 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

5.2. Cynigiodd y Comisiwn nifer o fân newidiadau i'r ymatebion Cydymffurfio a Rheoli'r Cynllun yn yr Adroddiad Blynyddol.

5.3. **Cytunwyd**, yn amodol ar ychydig o fân newidiadau, y dylid cyflwyno'r adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg a'i gyhoeddi ar wefan CFfDLC.
**Gweithredu: Rheolwr Cymorth Busnes**

## 6. Adeilad

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 20 Mehefin 2017 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

6.2. **Nododd** y Comisiwn gynnwys yr Adroddiad ac amlinellodd y camau i'w cymryd i ddatrys y mater ynglŷn â'r Adeilad.

6.3. **Cytunwyd** i roi awdurdod i'r Prif Weithredwr gyfarwyddo Cyfreithwyr Hugh James ynglŷn â'r camau gweithredu a argymhellir.
**Gweithredu: Y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cymorth Busnes**

## 7. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 08 Mehefin 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. **Nododd** y Comisiwn y gofrestr risg wedi'i diweddaru a **chytunodd** ar y newidiadau canlynol.

- CR7: cynyddu sgorau risg cynhenid a gweddilliol i adlewyrchu difrifoldeb y risg;
- CR7: ailddrafftio camau lliniaru i adlewyrchu camau sydd i'w cymryd gan y Comisiwn yn well yn hytrach na chynnwys camau y gellir eu cymryd gan Lywodraeth Cymru'n unig;
- CR6/7: diwygio'r Radar Risg i ddangos risgiau CR6 a CR7 yn gywir yn hytrach na dwy risg CR6.

**Gweithredu: Rheolwr Cyllid**

## 8. Adroddiad ar y Gyllideb

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 08 Mehefin 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

8.3. Adroddwyd bod y tanwariant presennol o £31,000 yn bennaf yn sgil anfonebau heb eu talu yn ddyledus gan y Weinyddiaeth Amddiffyn mewn perthynas â'i haelod staff sydd ar secondiad i'r Comisiwn ar hyn o bryd fel swyddog arolygon. Yn ychwanegol at hyn, roedd nifer o hawliadau heb eu talu o hyd am ffioedd a threuliau Aelodau ar gyfer misoedd Ebrill a Mai.

8.4. O ran gordalu costau'r adeilad, esboniwyd mai camgymeriad o ran y taliad trethi busnes blynyddol i Gyngor Dinas Caerdydd oedd i gyfrif am hyn, gyda'r swm blynyddol yn cael ei dalu yn hytrach nag mewn rhandaliadau misol unigol. Mae'r swm a ordalwyd wedi'i ad-dalu i'r Comisiwn gan y Cyngor erbyn hyn.

## 9. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 20 Mehefin 2017 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

9.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

9.3. **Cytunwyd** y dylid cysylltu â Chyngor Sir Ceredigion i ganfod pa ddyddiadau fyddai orau ganddynt o ran dyddiadau cyhoeddi Adroddiad Cynigion Drafft yr Arolwg Etholiadol.
**Gweithredu: Swyddog Arolygon**

## 10. Ymgynghoriad ynglŷn â Chyfundrefn Ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 20 Mehefin 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

10.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

10.3. **Cytunwyd** i gefnogi'r dull sydd orau gan Swyddfa Archwilio Cymru i wneud newidiadau i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 er mwyn sicrhau nad yw ffioedd a godir yn uwch na chost y gwaith a wneir. **Cytunwyd** y byddai'r newid arfaethedig i dalu ffioedd archwilio i daliad wedi'i ganoli gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gefnogi, ond gyda'r amod na fyddai'n cael effaith niweidiol ar berthynas weithio'r Comisiwn â Swyddfa Archwilio Cymru a'u harchwilwyr, gan gynnwys cytuno ar gynlluniau ac adroddiadau archwilio. Bydd ymateb yn cael ei ddrafftio a'i gyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru.
**Gweithredu: Rheolwr Cyllid**

## 11. Calendr Digwyddiadau

11.1. Nodwyd y calendr gan y Comisiwn.

## 12. Unrhyw Fusnes Arall

12.1. Nid oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 25 Gorffennaf 2017**